Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Brîff Estyn i Is-adran Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cynulliad Cymru (IGPPI)

yn amlinellu

Nodweddion da a diffygion gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Brîff Estyn i Is-adran Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cynulliad Cymru (IGPPI) yn amlinellu *Nodweddion da a diffygion gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol*

Medi 2007 – Awst 2009

Paratowyd y papur hwn ar ran y 'Tîm gwasanaethau ieucenctid ac awdurdodau lleol' yn Estyn sy'n gallu darparu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

Rydym wedi arfarnu agweddau ar weithgarwch gweithredol a swyddogaethau rheoli gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol fel y cânt eu dangos drwy arolygiadau o wasanaethau cymorth ieuenctid.

Rydym yn bwriadu i'r barnau a'r argymhellion yn y papur hwn helpu gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol i wella'n barhaus ac anelu at safonau uchel i bobl ifanc. Hefyd, nod y papur yw llywio IGPPI i gefnogi gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn fwy effeithiol.

Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i defnyddio i gefnogi ein barnau yn dod o arolygiadau o wasanaethau cymorth ieuenctid ac ailarolygiadau a gynhaliwyd rhwng mis Tachwedd 2007 a mis Mawrth 2009. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom gynnal arolygiadau yng Nghonwy, Gwynedd, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe, Bro Morgannwg a Wrecsam ac ailarolygiadau yng Ngheredigion a Sir Ddinbych. Cymerwyd tystiolaeth hefyd o waith ein cylch gwaith yn edrych ar ddefnydd gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol o systemau gwybodaeth reoli (MIS), a pha mor dda y mae gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn hyfforddi eu gweithwyr cymorth ieuenctid cymwysedig.

Caiff y dystiolaeth ei rhestru gydag argymhellion i'w gweithredu. Caiff nodweddion da, diffygion ac argymhellion eu nodi. Mae ystod y nodweddion da a nodir gan Estyn yn ei adroddiadau yn arddangos deheurwydd y gwasanaeth wrth fodloni anghenion pobl ifanc. Os caiff agweddau sydd angen eu gwella eu nodi, bydd angen ystyried ymyriadau ar lefel strategol a gweithredol.

Wrth ystyried y wybodaeth a geir yn y papur hwn, mae'n bwysig cofio bod gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol yn wasanaeth statudol sydd â dyletswydd i ddarparu gwasanaeth o safon yng nghyd-destun Datganiad y Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru, Ymestyn Hawliau a'r Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid.

Safonau

Yn y rhan fwyaf o leoliadau gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol a arsylwyd, mae pobl ifanc yn ymddwyn yn dda ac yn ymateb yn dda i staff. Mewn rhai, mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn frwdfrydig ac yn adeiladu perthnasoedd cadarnhaol gyda'i gilydd a staff. Fodd bynnag, mewn nifer fechan o leoliadau gwasanaethau ieuenctid, mae pobl ifanc yn ymddwyn yn wael.

Mae cyferbyniad sylweddol rhwng y niferoedd o bobl ifanc sy'n mynychu darpariaeth gwasanaethau ieuenctid yr awdurdod lleol mewn awdurdodau lleol gwahanol. Mewn un awdurdod, mae cyfran uwch o bobl ifanc 13-19 oed yn mynychu gweithgareddau gwasanaethau ieuenctid o'i chymharu ag awdurdodau lleol eraill, a chafwyd gwelliant sylweddol er yr arolygiad diwethaf. Mewn dau awdurdod lleol, mae nifer y bobl ifanc sy'n mynychu darpariaeth gwasanaethau ieuenctid yr awdurdod lleol yn cymharu'n dda â gwasanaethau ieuenctid awdurdodau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mewn dau awdurdod, mae ymgysylltiad cyffredinol pobl ifanc â'r gwasanaeth cyn ised â 8% o 'r boblogaeth 11-25 oed ac mae menywod ifainc yn y lleiafrif. Yn gyffredinol, mae cydbwysedd rhwng gwrywod a benywod sy'n mynychu gweithgareddau'r gwasanaethau ieuenctid yr ymwelwyd â nhw.

Mewn dau awdurdod, mae'r gwasanaethau'n gwneud defnydd da o'r ystod o ddulliau ar gyfer achredu cyflawniad pobl ifanc ac mae cynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud wrth ddatblygu llwybrau dilyniant ar gyfer achredu. Mewn awdurdod arall, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol, ond lleiafrif yn unig sy'n cyflawni achrediad yn y medrau hyn. Yn gyffredinol, mae rhywfaint o ffordd i fynd i gefnogi pobl ifanc i gyflawni canlyniadau achrededig. Ceir tystiolaeth mewn un awdurdod bod dros 80% o bobl ifanc sydd mewn cysylltiad â gwaith ieuenctid a leolir mewn ysgolion yn cyflawni canlyniadau achrededig.

Mae cyfranogiad a chyflawniad da drwy wobr Dug Caeredin mewn dau awdurdod a arolygwyd. Ar hyn o bryd, mae un awdurdod yn adrodd y nifer uchaf o wobrau fel canran o'r boblogaeth 14-25 oed yng Nghymru. Fodd bynnag, mewn un awdurdod, mae cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â Chynllun Dug Caeredin y tu allan i ysgolion yn gyfyngedig. Mae nifer y bobl ifanc sy'n cwblhau ac yn cyflawni Gwobrau Dug Caeredin mewn awdurdod arall yn disgyn.

Mewn pum awdurdod, nid yw'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn defnyddio cyfleoedd i ddatblygu dwyieithrwydd neu'r Iaith Gymraeg a diwylliant mewn lleoliadau gwasanaethau ieuenctid, neu ni chânt lawer o gyfle i wneud hynny.

Addysg a hyfforddiant

Mewn un awdurdod, yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae'r cynllunio wedi'i ddatblygu'n dda ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl ifanc. Mewn awdurdod arall, nid yw'r gwasanaeth ieuenctid yn cynllunio'n effeithiol ar unrhyw lefel. Yn y rhan fwyaf o leoliadau, mae staff yn cynllunio rhaglen eang a chytbwys. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ymhlith y staff yn cynllunio rhaglenni a gweithgareddau'n dda. Yn rhy aml, nid yw cynllunio yn ystyried medrau allweddol, medrau sylfaenol nag anghenion lleol.

Nid oes digon o staff i ddarparu gwasanaethau yn ddwyieithog ac weithiau mae staff yn methu â manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mewn un gwasanaeth ieuenctid, mae staff yn darparu cymorth da i siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg i ddatblygu eu medrau dwyieithog a'u medrau yn y Gymraeg yn eu cymuned. Fodd bynnag, mewn tri o'r awdurdodau yr ymwelwyd â nhw, nifer fechan o staff sy'n bwriadu hyrwyddo dwyieithrwydd neu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer hyfforddi a recriwtio er mwyn gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mewn tri awdurdod, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn darparu cydbwysedd da o leoliadau cyffredinol a lleoliadau wedi'u targedu. Fodd bynnag, mewn un awdurdod, mae darpariaeth clybiau ieuenctid wedi'i chyfyngu i ddau dymor yn y flwyddyn academaidd, ac mae'r ddarpariaeth i dargedu a chefnogi pobl ifanc nad ydynt yn mynychu clybiau ieuenctid yn gyfyngedig iawn. Mewn dau awdurdod, mae mynediad at ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid yn anghyson. Mewn awdurdod arall, mae dyblygu sylweddol o ran y gwasanaethau a ariennir gan y gwasanaeth ieuenctid yn yr un ardaloedd. Mewn dau awdurdod, ceir adeiladau ac ystafelloedd ansawdd da. Mewn un arall, maent yn amrywio ac nid oes cytundebau da o ran rhannu defnyddio'r adeiladau.

Mewn dau awdurdod, mae gan bobl ifanc fynediad da at wasanaethau gwybodaeth a ddarperir gan wasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol. Mewn un awdurdod, mae gan bobl ifanc mynediad da at wybodaeth, arweiniad a chymorth drwy wasanaeth gwybodaeth ganolog effeithiol. Fodd bynnag, mewn awdurdod arall mae diffyg sensitifrwydd diwylliannol yn sgil methu ag ymchwilio i anghenion lleol o ran gwybodaeth.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Yn ei setliad ariannol blynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru[1], mae pob awdurdod lleol yn cael elfen enwol ar gyfer gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol. Mae tri o'r gwasanaethau ieuenctid yr ymwelwyd â nhw yn derbyn cyllid craidd sydd rhwng 20% ac 36% yn uwch na'r elfen enwol hon. Fodd bynnag, mewn un awdurdod, dim ond 36% o'r arian enwol a ddefnyddir i ariannu'r gwasanaeth ieuenctid. Mewn awdurdod arall, dim ond 53% o'r swm hwn a ddefnyddir i ariannu'r gwasanaeth ieuenctid. Yn 2006-2007, sicrhaodd gwasanaeth ieuenctid un awdurdod lleol incwm sylweddol yn uwch na chyllid craidd yr awdurdod lleol. Mae pum deg y cant o gyllid gweithredu gros gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol hwnnw yn dod o incwm ychwanegol o'i gymharu â chyfartaledd yng Nghymru o 37%.

Nid yw Cwricwlwm y Gwasanaeth Ieuenctid wedi'i gysylltu'n gyson â chynllunio gweithredol a strategol mewn tri o'r awdurdodau a arolygwyd. Mewn un awdurdod, mae gwelliant y gwasanaeth wedi'i seilio ar reoli perfformiad, hunanasesu, sicrhau ansawdd a gwella dadansoddiad o'r data a gedwir yn system gwybodaeth reoli'r gwasanaeth. Yma, mae'r rhan fwyaf o asesiadau'r gwasanaeth ieuenctid yn gyson â chanfyddiadau'r arolygiad. Ymgynghorir yn llawn â phobl ifanc yn y broses. Mewn awdurdod arall, nid oes gan reolwyr unrhyw drosolwg gwybodus o berfformiad nac ansawdd. Nid oes ganddynt unrhyw wir ddealltwriaeth o pam y mae angen y wybodaeth honno arnynt. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn cynllunio strategol a gweithredol aneffeithiol. Mae gormod o wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol nad ydynt yn cyfrannu'n llawn at gynlluniau cymunedol strategol a chynlluniau plant a phobl ifanc awdurdodau lleol.

Mewn tri o'r awdurdodau, nid yw cytundebau lefel gwasanaeth yn y sector gwirfoddol yn ddigon trwyadl i helpu'r gwasanaeth ieuenctid i fonitro canlyniadau. Nid yw awdurdod

[1] Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dosrannu ei Grant Cynnal Refeniw i bob Cyngor drwy fformiwla o'r enw Asesiad o Wariant Safonol neu SSA. Yr SSA yw'r swm y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn asesu sydd ei angen er mwyn darparu, mewn termau cymharol, lefel safonol o wasanaeth yn yr ardal.

arall wedi sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth gyda sefydliadau gwirfoddol sy'n derbyn arian grant gan yr awdurdod. Nid yw sicrhau ansawdd, rheoli perfformiad yn erbyn amcanion a rennir na gwerthuso gwerth am arian yn bosibl o dan yr amgylchiadau hyn.

Ym mhob awdurdod lleol lle cafodd y gwasanaeth cymorth ieuenctid ei arolygu, mae o leiaf un hunanarfarniad wedi cael ei gwblhau. Mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau hunanarfarnu wedi'u seilio ar dystiolaeth o lygad y ffynnon ac maent yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau'n canolbwyntio gormod ar ddisgrifiadau o'r gweithgareddau a gynigir, yn hytrach nag ar arfarnu eu hansawdd neu'u canlyniadau.

Nid yw data ynghylch canlyniadau i bobl ifanc wedi cael ei ddatblygu'n llawn a chafwyd defnydd cyfyngedig o ddata er mwyn llywio cynllunio mwy effeithiol a gwella'r gwasanaeth. Nid yw'r rhan fwyaf o wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn defnyddio systemau gwybodaeth reoli (MIS) cadarn, er bod defnydd cynyddol o ddwy system sydd ar gael yn fasnachol, sef '*Quality Education Solutions Youth Services'* a '*Cognisoft Insight and Outreach*'. Mae hyn yn golygu bod cynllunio ar bob lefel yn cael ei lesteirio gan ddiffyg gwybodaeth. Hefyd, yn aml, dim ond arfarnu cyfyngedig a geir o ba mor effeithiol y mae'r gwasanaeth ieuenctid wrth ddiwallu anghenion pobl ifanc. Felly, mae'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau cyllidebol corfforaethol drwy gyfeirio at dystiolaeth o effaith yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae o leiaf un gwasanaeth ieuenctid wedi llwyddo i ddylanwadu ar flaenoriaethu'r awdurdod lleol drwy gyflwyno i'r cabinet yn effeithiol a defnyddio data craffu ar ganlyniadau i bobl ifanc. Mae hyn wedi arwain at broffil llawer yn uwch i waith ieuenctid a mwy o fuddsoddi mewn adnoddau.

Mae tri o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw wedi gwneud cynnydd araf neu heb gymryd camau ar yr holl argymhellion a wnaethpwyd gan Estyn mewn arolygiadau blaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu arwain a rheoli gwael a dealltwriaeth gyfyngedig o strategaethau gwella. Mewn un awdurdod, cafwyd cynnydd da er yr arolygiad diwethaf.

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau ieuenctid yn darparu ystod dda o gyfleoedd hyfforddiant i staff, a cânt eu rhannu gyda phartneriaid. Mae dau wasanaeth ieuenctid yn arwain y ffordd wrth ddatblygu strategaeth hyfforddiant er mwyn i bartneriaethau pobl ifanc gynyddu'r cyfleoedd i holl staff cymorth ieuenctid fynychu ystod dda o hyfforddiant achrededig. Mewn awdurdod arall, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn darparu hyfforddiant i'w staff ei hun, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau eraill yn yr awdurdod, a Gyrfa Cymru. Mewn awdurdod arall, mae hyfforddiant ar gael i bartneriaid sy'n cael gwybod am ddigwyddiadau hyfforddi. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i gysylltu â datblygiadau ehangach i'r gweithlu yn y cynllun plant a phobl ifanc.

Mae un gwasanaeth ieuenctid wedi datblygu strategaeth effeithiol ar ddatblygu'r gweithlu sydd wedi arwain at hyfforddiant effeithiol er mwyn gwella gwaith gyda phobl ifanc. Fodd bynnag, nid yw amcanion y strategaeth gwasanaeth ieuenctid genedlaethol ar gyfer datblygu'r gweithlu yn cael eu bodloni'n gyson ledled Cymru, oherwydd cynllunio strategol anghyson a defnydd anghyson o adnoddau. Hefyd, nid yw gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn cydnabod yn llawn cyfraniad hyfforddiant sydd wedi'i gynllunio a'i dargedu'n dda at godi ansawdd darpariaeth gwaith ieuenctid.

Nid yw blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer hyfforddi gweithwyr ieuenctid yng Nghymru, fel ag y maent wedi'u cysylltu â'r grant hyfforddi blynyddol, yn bodloni anghenion lleol bob amser.

Mewn un awdurdod, roedd staff y gwasanaeth ieuenctid yn dra chymwysedig. Mae cyfran y staff sy'n gymwysedig ar lefel 3 neu'n uwch yn 97%, o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 24%. Mae'r 3% sy'n weddill yn hyfforddi ar gyfer cymwysterau gwaith ieuenctid ar CGC lefel 3 a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau i bobl ifanc ac mae safonau wedi gwella. Fodd bynnag, nid oes gan weithwyr ieuenctid yn unrhyw ranbarth fynediad da at hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau cydnabyddedig ac felly ni chaiff canlyniadau a safonau gwell eu cyflawni'n gyson.

Casgliadau

Yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, arsylwodd arolygwyr ystod o arferion gwaith ieuenctid o ansawdd da. Yn gyffredinol, mae staff a phobl ifanc yn adeiladu perthnasoedd adeiladol a chefnogol.

Ac eithrio datblygu dwyieithrwydd neu'r Gymraeg a diwylliant Cymru mewn lleoliadau gwasanaethau ieuenctid, ceir tystiolaeth bod safonau wedi codi'n raddol yn ystod blynyddoedd y cylch arolygu. Fodd bynnag, nid yw holl wasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol wedi llwyddo gwneud cynnydd ar un raddfa ac mae rhai wedi gwneud cynnydd gymharol fach. O ganlyniad, erbyn hyn mae mwy o anghysondeb mewn safonau ledled Cymru. Gellir gweld hyn yn glir mewn data yn ymwneud â phresenoldeb, achrediad a chyfranogiad.

Yn gyffredinol, nid oes gan wasanaethau ieuenctid brosesau hunanarfarnu aeddfed. Felly, nid oes modd iddynt gynllunio ar gyfer gwella'r gwasanaeth gydag unrhyw fath o sicrwydd. Mae hyn yn arwain at gynllunio aneffeithiol a datblygiadau i wasanaethau sy'n dibynnu ar ddadansoddiad goddrychol ac nid gwrthrychol o anghenion. Caiff cynllunio ar bob lefel ei lesteirio gan ddiffyg gwybodaeth reoli gadarn ac, yn aml, arfarniad cyfyngedig yn unig a geir o ba mor effeithiol y mae'r gwasanaeth ieuenctid wrth ddiwallu anghenion pobl ifanc.

Yn gyffredinol, mae cysylltiad agos rhwng y diffygion a nodir ac arweinyddiaeth a rheolaeth ansicr. Mae anghysondeb mewn methodoleg yn ymwneud â hunanarfarnu, cynllunio gwelliannau a sicrhau ansawdd. Gyda'r anghysondebau hyn, mae'n anochel mai'r safonau anghyson sy'n cael eu cyflawni ledled Cymru fydd y canlyniad i bobl ifanc yn sgil eu gwaith gyda gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol.

Yn anaml y mae gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol yn darparu arweinyddiaeth strategol ynghylch blaenoriaethau Ymestyn Hawliau a'r Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid mewn partneriaethau lleol. Lle bo gwasanaethau ieuenctid yn cyfrannu'n bwrpasol at gynlluniau plant a phobl ifanc, ceir siawns gwell y bydd y blaenoriaethau hyn yn cael eu gwireddu'n lleol.

Mae adroddiadau blynyddol Estyn ar berfformiad gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol wedi nodi'r un diffygion o ran arwain a rheoli dro ar ôl tro. Mae cynnydd cyfyngedig ac anwastad wedi arwain at fwlch sy'n lledu rhwng perfformiad da ac anfoddhaol.

Argymhellion

Er mwyn sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 sicrhau bod hyfforddiant o ansawdd uchel ac sydd wedi'i ffocysu ar gyfer arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau ieuenctid er mwyn eu galluogi i wella cynllunio gwasanaethau a sicrhau ansawdd ar gyfer gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol; a

A2 sicrhau bod meincnod ar gyfer ansawdd gwasanaethau y gall gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol anelu ato.

Er mwyn sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen, dylai awdurdodau lleol:

A3 sicrhau bod hyfforddiant ar gyfer arweinwyr a rheolwyr gwasanaethau ieuenctid ynghylch datblygu a defnyddio methodoleg busnes priodol er mwyn sicrhau cyfraniad llawn gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol at amcanion corfforaethol a phartneriaethau, a sicrhau gwelliant parhaus.

Er mwyn sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen, dylai gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol:

A4 ddatblygu systemau gwybodaeth reoli effeithiol er mwyn casglu data yn ymwneud â defnydd o'r gwasanaeth, cyfraddau cyrhaeddiad, y niferoedd sy'n rhoi'r gorau iddi a dilyniant;

A5 defnyddio gwybodaeth reoli a gesglir i gynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth yn well er mwyn diwallu anghenion pobl ifanc yn well, gan gynnwys cefnogi penderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth a wneir gan aelodau etholedig;

A6 sicrhau bod gweithdrefnau sicrhau ansawdd parhaus yn cynnwys arsylwi gwaith uniongyrchol gyda phobl ifanc yn rheolaidd a bod y wybodaeth a geir yn cael ei defnyddio'n gyson i wella gwasanaethau; a

A7 sicrhau bod cynlluniau a rheoli perfformiad gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol wedi'u hymgorffori'n gadarn yn y cynllunio strategol corfforaethol a phartneriaeth lleol.